

THOMAS, DAVID ALFRED (1856 - 1918), yr is-iarll RHONDDA 1af, gŵr busnes a gwleidydd

Enw: David Alfred Thomas
Dyddiad geni: 1856
Dyddiad marw: 1918
Priod: Sybil Margaret Thomas (née Haig)
Plentyñ: Margaret Haig Mackworth (née Thomas)
Rhiant: Rachel Thomas (née Joseph)
Rhiant: Samuel Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gŵr busnes a gwleidydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Brinley Thomas

Wyr ydoedd i JOHN THOMAS, Magor, sir Fynwy, a aned yn 1770 ac a symudodd c. 1790 i Merthyr Tydfil a dyfod yn ymgymwr gwaith cludo dros deulu **Crawshay**; priododd John Thomas ferch yn perthyn i deulu o ffermwyr yn Merthyr Vale, a bu iddo bedwar o blant. O'r plant hyn daeth DAVID THOMAS (1811-1875) yn weinidog Annibynol blaenllaw yn Clifton (gweler *Memoir* iddo gan ei fab, Arnold Thomas). Cafodd yr hynaf, SAMUEL THOMAS (1800 - 1879), ei addysg yn Y Bont-faen a daeth yn siopwr yn Merthyr Tydfil, eithr yn ddiweddarach (c. 1842) dechreuddodd gloddio am lo. Priododd, yn ail wraig, Rachel, merch Morgan Joseph, peiriannydd mwynawl, Merthyr Tydfil, a chafodd drwyddi 17 o blant - David Alfred Thomas yn bymthegfed plentyñ. Ganed ef 26 Mawrth 1856 yn Ysgubor-wen, Aberdâr, lle y cloddiasai Samuel Thomas a'i fraward-yng-hyfraith, Thomas Joseph, bwlh glo yn 1849. Wedi iddo gael ei addysg ffurfiol yn ysgol Dr. Hudson yn Clifton ac yng Ngholeg Gonville a Caius, Caergrawnt, aeth i Clydach Vale (Rhondda) yn 23 oed i astudio'r diwydiant glo yn fanwl. Priododd, 27 Mehefin 1882, Sibyl Margaret, merch George Augustus Haig, Pen Ithon, sir Ffynwyfed; bu iddynt un ferch, **Margaret Haig**.

Yn rhan gyntaf ei yrfa (sef hyd 1906) gwleidyddiaeth oedd gwir ddiddordeb D. A. Thomas. Daeth allan ar ben y rhestr bedair gwaith fel ymgeisyyd Rhyddfrydol etholaeth seneddol Merthyr Tydfil. Eithr ni ddaeth llwyddiant i'w ddilyn yn Westminster a phan na chafodd swydd gan Campbell-Bannerman ar ôl llwyddiant eithriadol y Rhyddfrydwyr yn 1906, fe'i siomwyd yn fawr, a chanolbwytioedd ei holl ynni ar y Cambrian Collieries. Bellach, gan nad oedd i brofi ffrwythau gwasanaeth gwleidyddol, casglu fforiwn oedd y nod, ac ymhym ychydig flynyddoedd arweiniodd cyfres o bryniadau peniog i sefydlu y Cambrian Combine gyda chyfalaif o ddwy filiwn o bunnau. Yr oedd ei anian gref fel cyfalaifw'r a'r blas a gâi mewn dadl dost â'i wrthwnebwyrr yn peri mynhyr ffrae rhngddo ef ac arweinwyr y South Wales Miners' Federation. Yr oedd ganddo, ac yntau bellach yn un o brif benaethiaid diwydiant, gynlluniau mawrion - cael cydweithrediad a chyduniad rhwng cwmniau diwydiannol mawr yn America a Phrydain a chreu masnach rhwng y wlad hon a mannau anghysbell yng ngorllewin Canada. Eithr nid adeiladu ymerodraeth ym myd busnes, fodd bynnag, a ddug iddo'r hawl bennaf i enwogrwydd. Anfonwyd ef i Unol Daleithiau America gan **D. Lloyd George** ar genhadaeth bwysig yn 1915, a dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth wedi hynny; ym mis Rhagfyr 1916 dewiswyd ef yn llywydd y Bwrdd Masnach, ac ym mis Mehefin 1917 daeth yn bennaeth ('controller') adran bwyd. Trwy hyn dychwelodd D. A. Thomas at ei gariad cyntaf - gwleidyddiaeth - a bu'r unigolwr pybyr yn llwyddiant eithriadol fel pensaer arbrawf sosialaidd fawr, sef dogni bwyd cenedl gyfan. Bu farw o glefyd y galon, 3 Gorffennaf 1918, yn ei gartref, Llanwern, sir Fynwy.

Yr oedd gan is-iarll Rhondda awch cryf bachgen ieuanc at fywyd a gallu anghyffredin i drin dynion. Nid oedd derbyn ar ei frwdfrwyd - parhaodd trwy gydol ei oes i gadw'r hoffter o chwilio am nythod adar a'i nodweddai pan oedd yn fachgen ieuanc yn Ysgubor-wen. Ar wahân i'r dylanwad eithriadol fawr a enillodd ar ddatblygiad maes glo De Cymru, nid ymddidroedd ym mywyd cenedlaethol Cymru fel y cyfryw. Yr oedd yn wir unigolwr Victoriaidd; iddo ef twrnamaint yn cynnig gwobrwyon gwia a disgrair i'r gŵr anturiaethus ydoedd bywyd. Fe'i cofir yn arbennig am ei weinyddiad meistraidd ar adnoddau bwyd Prydain yn ystod blwyddyn dwyyllaf rhyfel 1914-9. Heblaw ei gyfraniad ar 'The Coal Trade' i Cox, *British Industries under Free Trade*, 1903, cyhoeddodd D. A. Thomas yn 1896 *Some Notes on the Present State of the Coal Trade*, ac, yn 1903, *The Growth and Direction of Our Foreign Trade in Coal (1850-1900)*, a gafodd 'fathodyn Guy' y Royal Statistical Society, ac a ddiwygiwyd yn ddiweddarach hyd y flwyddyn 1913.

Awdur

Yr Athro Brinley Thomas, (1906 - 1994)

Ffynonellau

David Evans, *In Memory of the Rt. Hon. Viscount Rhondda of Llanwern, P.C. (1918)*

J. Vyrnw Morgan, *Life of Viscount Rhondda* (Llundain 1918)

Margaret Haig Mackworth, Viscountess Rhondda, D. A. Thomas, *Viscount Rhondda, by his Daughter [Viscountess Rhondda] and Others* (Llundain 1921)

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

Darllen Pellach

T. Marchant Williams, *Welsh Members of Parliament, 1894* (Cardiff 1894)

Archifau LIGC: General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: David Alfred Thomas

Archifau LIGC: Vote for D. A. Thomas

Evan John Evans, William Flavel Hurndall, 'David Thomas, B.A.', *Pulpit memorials: photographs and specimen sermons of twenty Congregational ministers, with brief memoirs by several friends* (London 1878), tt. 412-428

Erthygl Wicipedia: [David Alfred Thomas](#)

Delweddau

H.J.B. Wills, [Lord Rhondda age 10](#)

H.J.B. Wills, [Lord Rhondda age 12](#)

H.J.B. Wills, [David Alfred Thomas](#)

LIGC: [Lord Rhondda as a youth at college](#)

LIGC: [Lord Rhondda age 25](#)

LIGC: [Lord Rhondda 1918 in characteristic pose](#)

LIGC: [David Alfred Thomas](#)

LIGC: [Lord Rhondda at the door of Llanwern Park](#)

LIGC: [Lord & Lady Rhondda at the doorway, Llanwern Park](#)

LIGC: [Lord Rhondda with Llanwern Herd Stock Bull, "Sir Sam"](#)

LIGC: [Lord Rhondda with Llanwern Herd Stock Bull, "Father Christmas"](#)

LIGC: [David Alfred Thomas](#)

LIGC: [Samuel Thomas](#)

Amgueddfa Cymru: [David Alfred Thomas, 1st Viscount Rhondda \(1856-1918\)](#)

National Portrait Gallery: [David Alfred Thomas, 1st Viscount Rhondda](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: D. A. Thomas (Viscount Rhondda) Papers

VIAF: [44074880](#)

Wikidata: [Q333863](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Thomas, B., (1953). THOMAS, DAVID ALFRED (1856 - 1918), yr is-iarll RHONDDA 1af, gŵr busnes a gwleidydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-ALF-1856>

[Copio i'r widd](#)

Preifatrwydd a Chwics
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodol i
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government